ADRODDIAD EFFAITH BLYNYDDOL
2020/21

YMDDIRIEDOLAETH
ARFORDIR PENFRO

Gateholm
Clawr blaen: Treginnis

Adroddiad Effaith Blynyddol
2020/21

Gair neu ddau gan y Cadeirydd

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn a saif yn y cof. Wrth i ni i gyd aros gartref ac ymdopi â ffordd newydd o fyw, roedd elusennau ac ewyllys da ar draws Sir Benfro a gwledydd Prydain wedi ymateb ac wedi cefnogi ein cymunedau. Gan i ni gael ein cyfyngu rhag cael mynediad i'r awyr agored, roedd nifer ohonom wedi dechrau archwilio mwy o lefydd yn nes adref, gan gynyddu ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o fyd natur ar garreg ein drws.

Drwy gydol y flwyddyn roedd Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi parhau i ennyn ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y dolydd, y peillwyr a'r coetiroedd ac wedi cyflwyno rhaglenni addysgol drwy ein mentrau presennol.

Gwnaethom barhau i godi arian a chefnogi prosiectau sy'n gwarchod bioamrywiaeth, fel **Creu Mwy o Ddolydd**, a phrosiectau sy'n addysgu plant ar y byd naturiol, fel **Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro**. Llwyddwyd hyd yn oed i gipio 'golygfeydd cyfrinachol' o fywyd gwyllt ar faes milwrol Castellmartin, a chefnogi gwirfoddolwyr oedd yn gweithio ar safleoedd Archaeoleg arbennig y sir.

Diolch o galon i chi am barhau i gefnogi Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Hebddoch chi ni fyddai'n bosibl gwneud dim o'r gwaith hwn.

Elsa Davies

YMDDIRIEDOLAETH
ARFORDIR PENFRO

Needle Rock, Dinas

Ein hamcanion elusennol yw:

- Hyrwyddo cadwraeth, gwarchodaeth a gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r ardaloedd cyfagos gan gynnwys bywyd gwyllt yn y Parc Cenedlaethol.
- Hyrwyddo'r addysg am bwysigrwydd y Parc Cenedlaethol, y bywyd gwyllt sydd ynddo a'r tirweddau naturiol.
- Hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol y cyhoedd, gan gynnwys annog pobl i gerdded a gwneud ymarfer corff yn y Parc Cenedlaethol.
- Hyrwyddo defnyddio'r Parc Cenedlaethol ar gyfer hamdden, er mwyn gwella lles cymdeithasol.
- Er mwyn cyflawni ein nodau a'n hamcanion elusennol rydym wedi cefnogi wyth prosiect a glustnodwyd yn flaenoriaethau ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn 2020/21

GWARCHOD Y PARC CENEDLAETHOL, AR GYFER HEDDIW, YFORY A'R DYFODOL

Trefdraeth

8
prosiectau a gefnogwyd

£61,548
yr incwm a godwyd

52
hectar o ddolydd wedi'u cefnogi

5
ysgol gynradd sydd wedi bod yn rhan o'r prosiect Gwreiddiau

700
o ddysgyblion wedi dysgu yn yr awyr agored

6
rhywogaeth wahanol o wenynen wedi'u cofnodi mewn 3 awr

8
safle newydd o ddolydd

4
dalgylch wedi'u trin am rywogaethau estron goresgynnol

Enw’r Prosiect:
Creu Mwy o Ddolydd

Crynodeb o’r Prosiect

Yng ngwledydd Prydain rydym wedi colli 95% a mwy o ddolydd blodau gwyllt yn y 75 mlynedd diwethaf. Mae hyn yn golygu bod llai o lefydd arbennig i’r blodau, gwenyn a bywyd gwyllt arall ffynnu. Ein nod ni oedd newid y patrwm hwn cyn iddi fod yn rhy hwyr!

Y cam cyntaf yn ein hymgyrch Creu Mwy o Ddolydd oedd anelu i godi £10,000 i’n galluogi i warchod, adfer a chreu dolydd newydd ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Byddai'r dolydd hyn yn gwarchod, diogelu a chynnal bywyd gwyllt. Hefyd roeddem am rannu’r neges am bwysigrwydd dolydd mor eang â phosibl.

Canlyniadau ac Effaith y Prosiect hyd yn hyn

Mae wyth safle newydd yn cwmpasu 52 hectar o ddolydd wedi’u cefnogi, gan gynnwys dôl newydd a gychwynnwyd o ddim. Mae saith dôl yn cael eu hadfer er mwyn eu diogelu ar gyfer y dyfodol.

Mae'r dolydd hyn yn cynnig 'cerrig camu' i fywyd gwyllt, yn galluogi pryfed a phlanhigion i symud ar draws ardal ehangach fel y gall eu rhywogaeth ffynnu a chael eu cynnal.

Un rhywogaeth sy'n elwa o'r cerrig camu bywyd gwyllt yw Glöyn byw brith y gors. Mae'r glöyn byw hwn yn un o'n rhywogaethau sydd fwyaf dan fygythiad, ac mae wedi dirywio'n ddramatig yn ystod y degawdau diwethaf wrth i'w gynefin gael ei golli. Nid yw’r glöyn hwn fel arfer yn hedfan yn bell iawn, ac yn tueddu ond i fynd cyn belled â'r cae cyfagos. Mae'n hanfodol felly bod 'cerrig camu' gerllaw iddynt ymledu. Mae'r prosiect hwn yn galluogi hyn i ddigwydd.

Canfuwyd planhigyn prin Barf Selsig, *Usnea articulata*, eleni yn un o’n safleoedd dolydd newydd. Mae'r cen yn ddibynnol ar y ddraenen wen a’r coed helyg mewn dolydd a reolir yn draddodiadol a’r tir o’u hamgylch, gan fod angen aer glân, heulwen ac amodau gwyntog ar y cen i ffynnu. Ychydig flynyddoedd yn ôl dim ond mewn 15 lleoliad ar hyd a lled De Cymru y gwelwyd y cen hwn, ond erbyn hyn mae'n ymddangos ei fod yn ffynnu unwaith yn rhagor. Yn ffodus, mae gennym glwstwr o ddolydd cyfagos lle daethom o hyd i'r cen, felly mae'n debygol o gynyddu ar ei ganfed yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Gyda'ch cefnogaeth chi roeddem nid yn unig yn gallu codi £10,000, ond rydym wedi ymrwymo i ariannu'r prosiect hwn yn barhaus – yn creu a diogelu mwy o ddolydd, heddiw ac i genedlaethau’r dyfodol.

Enw’r Prosiect:
Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro

Crynodeb o’r Prosiect

Cafodd y prosiect ei ddatblygu i gefnogi mwy o blant yn Sir Benfro i elwa o’r cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored sy’n cydweddu â’r Cwricwlwm newydd i Gymru. Roedd yr ariannu yn cynnwys Cydlynydd i weithio gyda’r ysgolion a’r Bartneriaeth Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro.

Gan fod plant wedi treulio llawer o’u hamser yn dysgu o gartref dros y 12 mis diwethaf, roedd y sylw wedi symud o gyflwyno sesiynau wyneb yn wyneb i ganolbwyntio ar adnoddau ar y wefan ac ar ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth â’r ysgolion, athrawon a’r rhieni oedd yn cynorthwyo plant yn eu cartrefi.

Canlyniadau ac Effaith y Prosiect

- Chwe digwyddiad hyfforddi ar-lein wedi’u cyflwyno i 80 a mwy o athrawon a staff gan ddarparu offer, awgrymiadau a sgiliau i’w defnyddio yn yr awyr agored fel cyfle dysgu ac fel ystafell ddosbarth.
- 700 a mwy o ddisgyblion wedi ymgysylltu â'r awyr agored a dysgu o’r profiad.
- Diweddaru gwefan Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro, gan gynnwys adnoddau newydd ar gyfer athrawon a chymorth penodol ar gyfer COVID-19.
- Roedd y digwyddiadau a gyflwynwyd yn cynnwys hyfforddiant ar y canlynol: dysgu awyr agored a Chwricwlwm Newydd Cymru, addysgu'n ddiogel yn yr awyr agored, taith rithiol ar dir yr ysgol, datblygu tir yr ysgol i greu cyfleoedd i fyfyrwyr, dysgu awyr agored mewn ardaloedd lleol i ysgolion, a rhannu arfer da a syniadau o dair ysgol yn y sir.

Gwaddol y prosiect – grymuso a galluogi athrawon i gyflwyno mwy o'u dysgu mewn lleoliad awyr agored. Bydd yr arferion a'r egwyddorion hyn yn parhau am hir, yn ogystal â’r deunyddiau a'r adnoddau a ddatblygwyd, fydd ar gael i addysgwyr y dyfodol.

“ ”

Mae ein dydd Gwener gwych wedi bod yn llwyddiannus iawn. Rwyf wedi gweld y plant yn magu hyder ers i ni ddechrau defnyddio'r awyr agored yn wythnosol. Maen nhw'n rhedeg i'r ysgol gyda gwên ar eu hwynebau bob dydd Gwener. Mae'r plant wedi mwynhau pigo afalau a'u defnyddio i wneud eu sudd afal eu hunain. Maent hefyd wedi mwynhau malu gwenith a gwneud eu blawd eu hunain. Roeddent i gyd wedi gallu gwneud eu haddurniadau toes halen eu hunain allan o'r blawd, a roddwyd yn anrheg cynhaeaf i'w rhieni. Mae Tom, Bryony a Graham i gyd wedi bod yn wych! Maen nhw wir wedi fy ysbrydoli fel athrawes i ddefnyddio'r awyr agored mor aml â phosib.

Mrs Gemma Morris, Athrawes Blwyddyn 2

Enw’r Prosiect: **Gwreiddiau/Roots**

Crynodeb o’r Prosiect

Datblygwyd Gwreiddiau mewn partneriaeth â Therfynell LNG South Hook a'r Parc Cenedlaethol fel prosiect addysg newydd i hybu gwybodaeth y plant am gynnyrch lleol ac i helpu i greu cyswllt rhwng yr ysgolion lleol â chynhyrchwyr lleol. Mae hefyd yn anelu at ddarparu gwell dealltwriaeth o sut mae'r tir o'n cwmpas yn rhoi yn ôl ac yn tyfu'r hyn yr ydym yn ei fwyta, tra hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth plant lleol am y cynhyrchwyr sydd yma ar garreg ein drws yn Sir Benfro.

Yn anffodus oherwydd y pandemig COVID-19, bu'n rhaid addasu’r cynlluniau cychwynnol i gyflawni’r prosiect. Serch hynny, mae hanfod yr hyn y bwriadwyd i Gwreiddiau ei gyflawni yn parhau yr un fath.

Cafodd rhaglen newydd ei datblygu oedd yn galluogi’r ysgol, ei hathrawon a'i disgyblion i archwilio tir yr ysgol a'r ardal gyfagos fel rhan o Gwreiddiau. Yn gynwysedig yn hyn oedd datblygiadau oedd yn galluogi mwy o dyfu ar dir yr ysgol, gan fynd â’r plant o’r gwaith plannu yr holl ffordd drwodd i gynaeafu a choginio.

Hefyd mae Gwreiddiau wedi galluogi ysgolion i fuddsoddi yn eu lleoedd dysgu awyr agored drwy godi ffensys newydd, creu gwelyau uchel a rhandiroedd, a phrynu offer newydd sydd ei angen ar gyfer tyfu mewn ysgolion.

Mae'r prosiect hefyd wedi gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gynnig profiadau ychwanegol drwy ymweliadau rhithiol â chynhyrchwyr. Mae dysgu ar-lein hefyd wedi cefnogi disgyblion i gael gwell dealltwriaeth o ble mae’r bwyd yn dod yn lleol a’r modd y mae'n cael ei gynhyrchu.

Canlyniadau ac Effaith y Prosiect hyd yn hyn

Mae'r prosiect Gwreiddiau wedi gweithio'n agos gyda phum ysgol gynradd yng Nghlwstwr Aberdaugleddau.

- 40 sesiwn a mwy ar draws pum ysgol wedi'u cyflwyno.
- 600 a mwy o fyfyrwyr wedi cymryd rhan mewn sesiynau dysgu awyr agored ymarferol.
- 20 a mwy o athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu wedi cael cymorth i gynllunio sesiynau awyr agored, yn helpu i fagu hyder i gyflwyno mwy o ddysgu mewn lleoliadau awyr agored.
- Wedi cyflawni gweithgareddau megis: casglu ffrwythau, gwasgu afalau, gwneud siytni, plannu tatws, plannu coed, malu gwenith a gwneud blawd.

Enw’r Prosiect:
Pobl, Llwybrau a Pheillwyr

Crynodeb o’r Prosiect (Blwyddyn 2)

Mae'r prosiect peilot hwn yn rhoi bioamrywiaeth wrth galon y gwaith o gynnal Llwybr Arfordir Penfro ac yn hybu diddordeb y trigolion lleol a’r ymwelwyr mewn bywyd gwyllt, a dal i sicrhau ansawdd y llwybr fel Llwybr Cenedlaethol.

Mae ein prosiect Llwybrau, Planhigion a Pheillwyr wedi bod yn gwneud arolwg o ran o’r llwybr o Niwgwl i Abereiddi. Mae’n gweithredu ystod o waith rheoli cynefinoedd ar raddfa fach fydd yn gwella cysylltedd rhwng yr ardaloedd cadwraeth presennol ac yn gwneud gweithgareddau cyfeillgar i beillwyr yn rhan annatod o’r gwaith beunyddiol o ddydd i ddydd o reoli Llwybr yr Arfordir.

Er gwaethaf yr anawsterau yn fyd-eang, trodd 2020 yn flwyddyn addawol i bryfed peillio ar hyd arfordir Sir Benfro.

Mae peillwyr yn rhan sylfaenol o'n bioamrywiaeth, ac mae pryfed yn gyfrifol am 90% o beillio cnydau. Nid yn unig y maent yn peillio cnydau bwyd ond maent hefyd yn hanfodol ar gyfer parhad y planhigion sy'n cynnal llawer o'n bywyd gwyllt.

Canlyniadau ac Effaith y Prosiect hyd yn hyn

- 65 milltir arall o Lwybr yr Arfordir wedi’i arolygu, sy’n gwneud cyfanswm o 90 milltir wedi’u harolygu rhwng Wdig a Gelliswick.
- Dros fisoedd y gaeaf torrodd wardeniaid y Parc Cenedlaethol oddeutu 2000m o dwneli gwynt Llwybr yr Arfordir cyn y tymor nythu adar.
- Parhaodd arolygon gwenyn pan oedd y cyfyngiadau yn caniatáu. Canlyniadau gorau ein harolwg oedd 150 o wenyn unigol o chwech rhywogaeth wahanol mewn 3 awr.
- Cafwyd hyd i Gaeneirian Troellog (Spiranthes Spiralis) ger Porth Clais.
- Mae cynlluniau peillwyr wedi’u gweithredu ym Mhorthgain ac yn Oriel y Parc. Bydd arolygon yr haf hwn yn dangos a yw'r gwaith rheoli yn gweithio.
- Mae’r wardeniaid yn parhau â'r gwaith da o'r llynedd drwy adael planhigion i flodeuo a hadu cyn eu torri yn ogystal â chreu mwy o fanciau gwenyn a thorri twneli gwynt.
- Arwyddion wedi'u gosod ar hyd y llwybr mewn ardaloedd allweddol yn gofyn i bobl gadw llygad a rhoi gwybod am unrhyw chwilen olew a welir.
- Plannwyd gwrych newydd yn Oriel y Parc gyda choed ffrwythau a llwyni ffrwythau.

Enw’r Prosiect:
Camera Bywyd Gwyllt yng Nghastellmartin

Crynodeb o’r Prosiect

Mae Castellmartin wedi bod yn faes milwrol o bwys ers 1939. Gan nad oes plaladdwyr wedi’u defnyddio ar y tir, a dim amaethu dwys na datblygu adeiladau yn ogystal â chyfyngu ar fynediad i’r cyhoedd, mae’r lle yn hafan i fywyd gwyllt; gan gynnwys y Frân goesgoch, Gloÿnnod byw britheg y gors, Morloi llwyd a Thegeirian y waun. Mae Lynne Houlston, Parcmon y Parc Cenedlaethol, yn monitro'r rhywogaethau hyn a rhywogaethau eraill ar draws y 6,000 o erwau Maes Castellmartin.

Canlyniadau ac Effaith y Prosiect hyd yn hyn

Y llynedd, llwyddodd Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i osod camera ar faes Castellmartin i ffilmio bywyd gwyllt ar y maes. Gellir gweld y fideo drwy ymweld ag adran newyddion gwefan yr Ymddiriedolaeth o dan Maes Castellmartin. Cymerwyd y ffilm wych o fewn coetir yng nghanol Maestir y Gorllewin.

Enw’r Prosiect:
Gwyllt am Goetiroedd

Crynodeb o’r Prosiect

Yn 2020 sefydlwyd apêl Gwyllt am Goetiroedd Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i blannu a gwarchod 1,000 o goed ychwanegol y mae mawr eu hangen ar draws y Parc Cenedlaethol.

O goedwigoedd i wrychoedd, dyffrynnoedd arfordirol i berllannau a chaeau, mae coed dan fygythiad ac mae angen mwy ohonynt. Ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro rydym yn disgwyl colli o leiaf 90% o'r holl goed ynn.

Bydd y prosiect yn mynd i'r afael â bygythiadau allweddol i gyflwr ffiniau traddodiadol, coed a choetiroedd, ac yn codi ymwybyddiaeth o werth y cynefinoedd hyn. Treuliwyd 2020 yn codi arian ar gyfer yr ymgyrch. Yr ydym eisoes wedi dechrau plannu rhai coed a roddwyd gan y Clwb Gwersylla Gwyrddach, ond bydd mwy i ddod yn 2021.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r rhai sydd wedi cyfrannu hyd yn hyn, ac edrychwn ymlaen at adrodd yn fanwl am y plannu coed y mae eich rhoddion hael wedi'i gefnogi yn Adroddiad Effaith y flwyddyn nesaf.

Coed Pen yr allt ddu

Enw’r Prosiect:
Gwisgoedd Archaeoleg

Crynodeb o’r Prosiect

Yn ystod 2020, bu’r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn recriwtio 16 o wirfoddolwyr i fonitro henebion rhestredig sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn y Parc Cenedlaethol. Yn gyfan gwbl, ymwelwyd â 50 y cant a mwy o henebion rhestredig yn y Parc Cenedlaethol fel rhan o'r cynllun hwn i glustnodi materion oedd yn codi. Mae eu cyfraniad yn sicrhau bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol mewn sefyllfa gryfach i ddiogelu'r henebion hyn sy'n bwysig yn genedlaethol.

Canlyniadau ac Effaith y Prosiect hyd yn hyn

Er mwyn helpu gyda'r gweithgaredd hwn, roedd y gwirfoddolwyr yn cael gwisg ac offer i gwblhau eu hymweliadau yn llwyddiannus. Ariannwyd y gwisgoedd gan y rhoddion i Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro o Ddiwrnod Archaeoleg Sir Benfro 2020.

Enw’r Prosiect:
Pwyth mewn Pryd (Blwyddyn 2)

Crynodeb o’r Prosiect

Hon yw ail flwyddyn y prosiect Pwyth mewn Pryd sy’n cefnogi cadwraeth drwy fynd i'r afael â’r rhywogaethau estron goresgynnol. Rhywogaethau Estron Goresgynnol yw un o’r prif ffactorau sy’n achosi colli bioamrywiaeth yn fyd-eang ac yn lleol.

Mae’r prosiect peilot Pwyth mewn Pryd yn canolbwyntio ar Jac y Neidiwr goresgynnol blynyddol a’r Clymog Japan goresgynnol lluosflwydd, ac mae’n cynnwys pedwar dalgylch lle mae dulliau’r dalgylch yn cael eu mireinio. Y pedwar dalgylch yw: Cwm Gwaun a Phorthgain, Cors Castellmartin ac is-ddalgylch Nyfer, Afon Clydach.

Yn ogystal â dalgylchoedd y prosiect, mae'r prosiect yn ymgysylltu â pharcmyn APCAP a grwpiau cymunedol, ac yn eu cynghori.

Canlyniadau ac Effaith y Prosiect hyd yn hyn

- Rhoddwyd cyngor i 32 aelod o'r cyhoedd, tirfeddianwyr a sefydliadau ar amrywiaeth o rywogaethau planhigion goresgynnol gan y swyddog prosiect.
- Mae'r prosiect wedi datblygu dull dau-gam llwyddiannus o reoli dalgylch Jac y Neidiwr – planhigyn blynyddol goresgynnol.
- Mae’r gwaith yn mynd rhagddo ar gyfanswm o 36.15 hectar, ac mae 14.21 hectar yn yr ail gam o fonitro’r rhywogaeth Jac y Neidiwr goresgynnol blynyddol ar draws y pedwar dalgylch.
- Mae'r prosiect yn parhau i reoli clymog Japan yn gynaliadwy ar draws y dalgylch peilot gwreiddiol yng Nghwm Gwaun ac yn lleihau lledaeniad y rhywogaeth o cannoedd o goesau i ddegau dros ardal fras o 7 hectar gan helpu i gynyddu bioddiogelwch cyffredinol y dalgylch.
- Ymgysylltu â pherchnogion tir a chymunedau (cyfanswm o 45).
- Roedd gwirfoddolwyr wedi cyfrannu cyfanswm o 518 o oriau i’r prosiect yn ystod 2019 a 2020. Mae gwirfoddoli yn agwedd allweddol o reoli tir, ac mae'r prosiect wedi rhoi hyfforddiant ar-lein yn ystod y pandemig ar rywogaethau estron goresgynnol, peillwyr a blodau gwyllt.
- Cyflwyno Digwyddiad ar-lein ar Arfer Gorau oedd yn dangos y dulliau a ddefnyddir i lwyddo i reoli Jac y Neidiwr mewn dalgylch. Cymerodd 56 o bobl ran.

Newyddion arall ....

Roedd yr Ymddiriedolaeth yn ffodus i dderbyn arian gan Gronfa Treftadaeth y Loteri drwy Gronfa Cymorth Adferiad Gwyrdd Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllid hwn wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth i gynhyrchu strategaeth gyfathrebu tair blynedd a chynllunio i helpu i ennyn cefnogaeth ac ymgysylltu â'r elusen. Ein ffocws yw rhannu ein negeseuon hanfodol am bwysigrwydd y Parc Cenedlaethol fel lle arbennig, a'r modd y gallwn gyda'n gilydd ei warchod.

Ein gobaith yw cynyddu cefnogaeth fel y gall mwy o bobl gymryd rhan a dysgu am y modd y gallant helpu o ran natur lleol, bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd. Hefyd mae'r gronfa yn ein galluogi i lansio cynllun grant bach newydd o'r enw 'Grant Gweithredu dros Natur'. Mae'r cynllun yn ceisio cefnogi grwpiau cymunedol yn y Parc Cenedlaethol sy'n cyflawni nodau'r elusen, a bydd mwy am y prosiectau y mae'r gronfa hon wedi'u cefnogi yn cael ei rannu y flwyddyn nesaf.

Ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ...

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar blannu mwy o goed yn y Parc Cenedlaethol. Rydym yn hynod gyffrous i fod yn lansio ein prosiect Y 1000 Diwrnod Cyntaf, sy'n ceisio cefnogi rhieni a gofalwyr sydd â phlant oed cyn-ysgol i gael mynediad i natur a'r awyr agored.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda nifer fawr o bartneriaid a grwpiau lleol newydd drwy lansio ein cynllun grant bach cyntaf **Gweithredu dros Natur**, ar gyfer prosiectau sydd â chamau cadwraeth cadarnhaol, ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r cyffiniau.

Parhau mae ein pryderon am gadwraeth, y gymuned, ein diwylliant a'r arfordir, a byddwn ar flaen y gad i'w hamddiffyn. Rydym yn ymrwymedig i gefnogi'r prosiectau gorau a gyflawnir gan y bobl orau ac sy'n cael eu llywio gan Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, y cymunedau lleol a'r arbenigwyr amgylcheddol a threftadaeth.

Haroldston Chins

Ein diolch personol i'n Cyllidwyr yn 2020/21:

Dymunwn ddiolch o galon i bob un o'n cefnogwyr unigol sydd wedi rhoi i ni dros y flwyddyn ddiwethaf. Ni allem wneud yr hyn a wnawn heb eich cymorth chi.

Y cwmnïau sydd wedi ein cefnogi:

Llyfrau Batsford

Ymddiriedolaeth Elusennol DS Smith

Clwb Gwersylla Gwyrddach

LNG South Hook

Barwniaeth Cemaes

Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

Ymddiriedolaeth Elusennol CLA

Ymddiriedolaeth Elusennol D'Oyly Carte

Ymddiriedolaeth Elusennol Ernest Kleinwort

Sefydliad Jenour

Y Loteri Genedlaethol Arian i Bawb

Sefydliad Waterloo

Llywodraeth Cymru (Cronfa Cymorth Adferiad Gwyrdd CTL)

Hoffem ddiolch yn arbennig i'r unigolion canlynol

David Leyshon

Duncan Fitzwilliams

Millie Marotta

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi bod yn ddigon caredig i gefnogi ein costau gweithredu tan 2023. Mae hyn yn golygu bod pob rhodd yn helpu prosiectau y mae mawr eu hangen ar draws y Parc Cenedlaethol.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

GYDA'N GILYDD RYDYM YN GWNEUD GWAHANIAETH

Porth Maenmelyn
Clawr cefn: Penplediau

YMDDIRIEDOLAETH ARFORDIR PENFRO

PEMBROKESHIRE COAST CHARITABLE TRUST

CYSYLLTWCH Â NI
support@pembrokeshirecoast.wales
www.ymddiriedolaetharfordirpenfro.cymru
01646 624808
Parc Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro SA72 6DY

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
Rhif Elusen Gofrestredig 1179281